

helplu


helpforce

Helpu Cymru

Adroddiad diwedd blwyddyn (2021 - 22)

Fiona Liddell

Ebrill 2022



CYNNWYS

1 Amcanion gwreiddiol

2 Cynnydd yn erbyn y cynllun gwaith 2021/22

2.1 Datblygu arferion ac arloesedd

Prosiectau peilot Gofal Diwedd Oes
Ffrind mewn Angen (Age Cymru)
Gwirfoddoli mewn cartrefi gofal

2.2 Dysgu a rhannu

2.3 Datblygu llwybrau gwirfoddoli

Safonau ac adnoddau dysgu i wirfoddolwyr yn y maes
iechyd a gofal cymdeithasol
Prosiect peilot Gwirfoddoli i Yrfa

2.4 Adeiladu sylfaen dystiolaeth

2.5 Dylanwadu ar gynlluniau strategol

Datblygu fframwaith ar gyfer gwirfoddoli ym maes iechyd
a gofal cymdeithasol

3 Cyllideb

4 Llywodraethu

Atodiad 1 Gweithgareddau a chynnydd fesul chwarter

Atodiad 2 Cyllideb

1 Amcanion Gwreiddiol

Nodau'r swydd, fel y nodwyd yn nisgrifiad swydd Rheolwr Helplu Cymru yw:

“Cynllunio ac arolygu'r gwaith o gyflwyno rhaglen o weithgareddau a fydd yn cynyddu cysylltiad effeithiol gwirfoddolwyr â'r maes iechyd a gofal cymdeithasol mewn lleoliadau gofal cynradd ac eilaidd, a bod yn brif gyswllt rhwng gweithgareddau Helplu yng Nghymru, Helpforce UK a Grŵp Llywio Cymru.

Datblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer arferion gwirfoddoli yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol i'w defnyddio gan gynllunwyr a phenderfynwyr a chyfrannu straeon cadarnhaol am effaith at y naratif newidiol o ran iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.”

2 Cynnydd yn erbyn y cynllun gwaith 2020-21

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn ymlaen o (ac yn ceisio peidio â dyblygu) adroddiad diwedd blwyddyn 2, dyddiedig Ebrill 2021.

Ceir rhagor o fanylion ar weithgareddau'r flwyddyn hon fesul chwarter yn Atodiad 1.

2.1 DATBLYGU ARFERION AC ARLOESedd

Prosiectau peilot gofal diwedd oes

2.1.1 Gwnaeth rhaglen gofal diwedd oes DU gyfan Helplu/Marie Curie ddod i ben yn ffurfiol ym mis Gorffennaf. Rydyn ni wedi gweithio gyda'r tri phrosiect peilot yng Nghymru er mwyn casglu'r data a'r dysgu yn y ffordd orau bosibl ac ar fformat y gellir ei rannu.

2.1.2 Dyma'r allbynnau cyhoeddedig o'r prosiect:

- [Adroddiad Helplu ar y prosiect yn gyffredinol](#) (Saesneg yn unig)
- [Canllawiau Gwasanaeth \(Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan\)](#) (Saesneg yn unig)
- [Trosolwg o'r gwasanaeth \(Bwrdd Iechyd Addysgu Powys\)](#)
- [Trosolwg o'r gwasanaeth \(Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda\)](#)
- [Stori prosiect \(Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda\)](#)

- [Stori Prosiect \(Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan\)](#)
- [Stori prosiect \(Bwrdd Iechyd Addysgu Powys\)](#)
- [Astudiaeth achos: Cydymaith Diwedd Oes \(Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan\)](#)
- Blog: [Cymdeithion gwirfoddol mewn gofal diwedd oes](#)
- Blog: [Bod yn Graig – rôl gwirfoddolwyr mewn gofal diwedd oes](#)

2.1.4 Mae'r tri phrosiect yng Nghymru yn addasu eu cynllun peilot i barhau mewn modd cynaliadwy, yn unol â'r weledigaeth leol, yr angen, y gwasanaethau perthnasol a'r capasiti.

2.1.5 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn parhau i recriwtio a hyfforddi cymdeithion gofal diwedd oes (EoLC) gwirfoddol, fel rhan o gyfres o rolau cyfeillio sydd ar gael; mae 45 o wirfoddolwyr wedi'u hyfforddi ac 19 o'r rhain yn weithredol ar hyn o bryd. Mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal â chleifion, mewn wardiau heb Covid a chyda chyfarpar diogelu personol (PPE) (masg, ffedog, menig). Mae'r gwasanaeth ar gael ar draws yr holl Fwrdd Iechyd, ond mae'r atgyfeiriadau'n parhau i fod yn araf. Mae Gwirfoddolwyr EoLC ar y wardiau fel cyfeillachwyr cyffredinol ac yn mynd ati'n weithredol i geisio cael atgyfeiriadau diwedd oes. Mae'r hyfforddiant diwedd oes ar gyfer gwirfoddolwyr hefyd ar gael i staff bellach.

2.1.6 Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn canolbwyntio ar ddatblygu rôl Gwirfoddolwr Cymorth Gofal Iechyd mwy generig, a fydd yn cynnwys arferion da ac adborth o'r rhaglen beilot Gofal Diwedd Oes.

2.1.7 Mae prosiect cydymaith diwedd oes gwirfoddol yn cael ei drefnu nawr fel cynllun peilot yn Nhŷ Olwen, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a bwriedir dechrau recriwtio erbyn diwedd mis Mawrth 2022.

2.1.8 Mae Helpu Cymru ar grŵp craidd strategol [Cymru Garedig](#), sy'n ceisio gwella'r ffordd y mae pobl yn gofalu, yn marw ac yn galaru.

Ffrind mewn Angen (Age Cymru)

2.1.9 Dechreuodd y gwasanaeth cyfeillgarwch dros y ffôn Cymru gyfan, ['Ffrind mewn Angen' \(Saesneg yn unig\)](#), fel ymateb cenedlaethol i'r angen yn ystod Covid-19. Mae gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio a'u

hyfforddi'n barhaus i ateb y galwadau parhaus am y gwasanaeth, gyda 164 o wirfoddolwyr bellach yn cefnogi 221 o bobl hŷn bob mis. Mae sesiynau ymwybyddiaeth o brofedigaeth wedi'u cynnig i wirfoddolwyr (mewn partneriaeth â Marie Curie) er mwyn ehangu eu sgiliau a'u profiad.

2.1.10 Ymunodd Helplu Cymru â phanel grant Llywodraeth Cymru i ddyfarnu cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer prosiectau sy'n ategu'r gwasanaeth Ffrind mewn Angen. Ysgrifennodd un derbynnydd grant astudiaeth achos: [Ailgyssylltu – estyn allan i gadw mewn cysylltiad ym Merthyr](#). Yn dilyn hyn, gwnaethom gymryd rhan mewn panel grant yn dyfarnu grantiau o [gronfa unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol 2021-2024](#) i awdurdodau lleol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs), yn gweithio mewn partneriaeth.

Gwirfoddoli mewn Cartrefi Gofal

2.1.11 Mewn ymateb i ddull gweithredu gan y Dirprwy Arolygydd Gofal yn ystod Covid 19, gwnaethom gynorthwyo Age Cymru i beilota model gwirfoddoli o fewn cartrefi gofal a datblygu canllawiau i alluogi hyn i ddigwydd yn fwy eang ledled Cymru. Roedd y pwyslais ar alluogi teuluoedd i gadw mewn cysylltiad â thrigolion naill ai'n bersonol neu'n ddigidol.

2.1.12 Cafodd prosiect peilot pellach ar wirfoddoli mewn cartrefi gofal ei gynnal gan Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint (FLVC), gyda chyllid cychwynnol gan Grant Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws Llywodraeth Cymru. Rydym wedi galluogi'r ddau brosiect i sgwrsio a dysgu o'i gilydd ac wedi hwyluso digwyddiadau yn ystod Gofod 3 (Mehefin 2021) ac ym mis Ionawr 2022, gan alluogi'r ddau brosiect i ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach.

2.1.13 Dyma'r allbynnau cyhoeddedig o'r prosiect:

- [Adroddiad prosiect Age Cymru \(Saesneg yn unig\)](#)
- [Adnodd pecyn cymorth](#)
- [Nodiadau gweledol o weithdy Gofod 3 \(Saesneg yn unig\)](#)
- Blog: [Gwirfoddoli mewn cartrefi gofal](#)

2.2 DYSGU A RHANNU

2.2.1 Cafodd y papur [Sbectrwm Cyfranogiad Gwirfoddolwyr](#), ei lunio gyda'r 'Eden Project Communities' a'i gyhoeddi ganddyn nhw. Gwnaeth hwn amlygu gwerth gwirfoddolwyr anffurfiol a ffurfiol mewn cymorth llesiant cymunedol. Gwnaeth Helplu Cymru ddatblygu a chyhoeddi [taflen drafod](#) i fynd gyda hwn er mwyn annog pobl i feddwl am reoli risg a risg gymesur.

2.2.2 Cynhaliwyd dwy sesiwn yn [Gofod 3](#). Un ar wirfoddoli a chartrefi gofal, y cyfeiriwyd ati uchod (gweler 2.1.10) a lansiad y [Fframwaith ar gyfer Gwirfoddoli yn y maes lechyd a Gofal Cymdeithasol](#) (gweler 2.5) oedd y llall, a oedd yn cynnwys [mewnbwn fideo](#) gan Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

2.2.3 Gwnaeth Helplu Cymru a Chymru Garedig gynnal digwyddiad ar y cyd ar-lein ar gyfer Wythnos Byw Nawr, yn cynnwys mewnbwn gan y tri chynllun peilot gwirfoddoli a gofal diwedd oes (gweler 2.1.1).

2.2.4 Gwnaeth digwyddiad dathliadol gan Helplu ym mis Ionawr, gyda chynrychiolwyr o'r pedair cenedl a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ddathlu'r gydberthynas newydd rhwng Helplu a'r cenedloedd datganoledig. Mae [cyflwyniad powerpoint](#) (Saesneg yn unig) yn crynhoi'r prif weithgareddau a chyflawniadau dros ddwy flynedd yng Nghymru.

2.2.5 Cynhaliwyd dwy gynhadledd wirfoddoli ym mis Mawrth: canolbwyntiodd yr un gyntaf, 'Gwirfoddoli yn ystod y pandemig, cael y darlun llawn' ar waith ymchwil, gan geisio nodi'r goblygiadau polisi er mwyn llywio gwaith y Grŵp Arweinyddiaeth Gwirfoddoli Traws-sector newydd.

2.2.6 Gwnaeth yr ail, 'Gwirfoddoli tu hwnt i'r pandemig – dulliau cydweithredol' ystyried profiadau nifer o brosiectau a gyllidwyd gan grantiau sydd wedi dangos datblygiadau cydweithredol mewn gwirfoddoli. Gwnaeth y gweithdai ganolbwyntio ar bedair thema a nodwyd yn y prosiect [Fframwaith Gwirfoddoli](#) (gweler 2.5.1) fel rhai strategol bwysig. Y rhain oedd: prosesau recriwtio gwirfoddolwyr a rennir, darpariaeth dysgu gwirfoddolwyr a rennir, symud gwirfoddolwyr ar gyfer argyfyngau ac integreiddio gwirfoddoli yn nyluniad y gwasanaeth.

Bydd adroddiad ar y ddwy gynhadledd a nodiadau gweledol proffesiynol yn cael eu llunio.

2.2.7 Yn ogystal â blogiau a nodwyd mewn manau eraill ar [wirfoddoli a gofal diwedd oes](#) a'r [Fframwaith i glymu gwirfoddoli yn rhan o faes iechyd a gofal cymdeithasol](#), gwnaethom gyhoeddi'r canlynol:

- Blog: [A yw gwirfoddolwyr yn rhan o'r gweithlu?](#)
- Blog: [Pasbortau gwirfoddolwyr – ydyn ni eu hangen?](#)
- Blog: [Byw gyda Covid 19 – risgiau, hawliau a gwirfoddolwyr](#)
- Astudiaeth achos: [Rol hanfodol gwirfoddolwyr o fewn gwasanaethau iechyd meddwl lleol integredig](#) (cyflwynwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y strategaeth gweithlu iechyd meddwl)
- Blog: [Gallwn ni ddatgloi pŵer gwirfoddoli](#) (wedi'i ysgrifennu ar gyfer Conffederasiwn GIG Cymru a'i gyhoeddi ganddynt)

2.3 DATBLYGU LLWYBRAU GWIRFODDOLI

Safonau ac adnoddau dysgu i wirfoddolwyr yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol

2.3.1 Datblygu a chyhoeddi taflen wybodaeth ar Hwb Gwybodaeth TSSW: [Gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol: safonau ac adnoddau dysgu](#).

Prosiect Gwirfoddoli i Yrfa

2.3.2 Cafodd cynnig prosiect peilot, a ddatblygwyd gyda Helplu a Chomisiwn Bevan, ei lansio ym mis Awst a oedd wedi'i addasu o'r rhaglen a oedd ar droed yn Lloegr. Ei nod yw cynorthwyo arweinwyr clinigol y GIG i ddatblygu rolau gwirfoddoli bwriadol, gan weithio gyda chydweithwyr yn y mudiad ehangach ar yr un pryd, er mwyn creu llwybrau i wirfoddolwyr edrych ar ddiddordebau gyrfa yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol.

2.3.3 Cynhaliwyd sesiwn ragarweiniol ym mis Medi, ynghyd â sgysiau gyda phartion â diddordeb. Mae un prosiect, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, wedi'i gymeradwyo a dylai ddechrau ym mis Ebrill, gyda chymorth cyllid gan y 'Burdett Nursing Trust'. Yn y cyfamser, mae cyfarfodydd cychwynnol wedi'u cynnal gyda Helplu a hunanasesiad sylfaenol yn cael ei gynnal gan y Bwrdd Iechyd.

2.4 ADEILADU SYLFAEN DYSTIOLAETH

2.4.1 Gwerthuso prosiectau peilot gofal diwedd oes (Gweler 2.1.1)

2.4.2 Mae Helpu Cymru wedi dod yn bartner ymchwil ar gyfer [Actif – cynllun 'bydi' gwirfoddol i gefnogi oedolion hŷn \(Saesneg yn unig\)](#); (Egñiol, Cysylltiedig, Ymgysylltiedig) sy'n cael ei wneud gan gydweithrediad o bartneriaid ymchwil, gan gynnwys Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'n hap-astudiaeth dan reolaeth ar dri safle (Stoke on Trent, Manceinion, Caerdydd) i edrych ar 'sut mae rhaglen heneiddio dan arweiniad gwirfoddolwyr yn gweithio ac a yw'n rhoi gwerth am arian?'

2.4.3 Mae Helpforce UK, Helpu Cymru ac FLVC wrthi'n trafod llunio gwerthusiad 12 mis ar effaith gwirfoddoli mewn cartrefi gofal, yn seiliedig ar brosiect FLVC (gweler 2.1.7) sy'n parhau i ehangu, gan hefyd ystyried profiad a thystiolaeth o brosiectau hyd yma a chyda'r nod o ledaenu arferion llwyddiannus ar hyd a lled Cymru.

2.5 DYLANWADU AR GYNLLUNIAU STRATEGOL

Datblygu fframwaith ar gyfer gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

2.5.1 Mae [Fframwaith rhyngweithiol](#) wedi'i ddatblygu a'i gyhoeddi ar CGGC ac ar wefannau partneriaid y prosiect (Comisiwn Bevan, Gofal Cymdeithasol Cymru).

2.5.2 Cyflwynwyd adroddiad i Lywodraeth Cymru yn amlinellu rhai o'r argymhellion a gododd o'r prosiect sydd y tu hwnt i allu unrhyw un mudiad i'w cyflawni; mae angen mynd ati mewn modd cenedlaethol ac unedig.

2.5.3 Mae ymchwilwyr o [brosiect MoVE \(Saesneg yn unig\)](#) yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi'r hyn a ddysgwyd o brosiectau grant adfer coronafeirws a gyllidwyd gan grantiau, a gwnaethant lunio astudiaeth achos o'r prosiect hwn, yn seiliedig ar gyfres o grwpiau ffocws.

2.5.2 Dyma'r allbynnau cyhoeddus o'r prosiect:

- [Fframwaith gwirfoddoli ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol](#)

- [Astudiaeth achos Helplu - Fframwaith Gwirfoddoli](#) (Saesneg yn unig)
- Blog: [Fframwaith i glymu gwirfoddoli yn rhan o faes iechyd a gofal cymdeithasol](#)

Ymgynghoriadau

2.5.3 Rydym wedi cyfrannu [ymateb i ymgynghoriad](#) Gofal Cymdeithasol Cymru/Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) [ar y cynllun gweithlu iechyd meddwl ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol](#). I'r diben hwn, mae astudiaeth achos wedi'i baratoi i ddangos rôl gwirfoddolwyr o fewn y gweithlu ehangach: [Rôl hanfodol gwirfoddolwyr o fewn gwasanaethau iechyd meddwl integredig lleol](#)

3 CYLLIDEB

Dengys crynodeb o gyllideb a gwariant y prosiect dros gyfnod o 12 mis yn Atodiad B.

Incwm

3.3 Mae'r gyllideb flynyddol o £76,265 ar gyfer 2021/22 yn cynnwys 62.5 mil gan Lywodraeth Cymru, a gariwyd drosodd gyda chaniatâd o 2020/21, ac £13,765 a gariwyd drosodd gyda chaniatâd o grant Helplu 2020/21.

Gwariant

3.4 Mae gwariant 'Amrywiol' yn cynnwys £3630 o wariant ymgynghori sy'n ymwneud â chyhoeddi'r Fframwaith ar gyfer gwirfoddoli, (yn ychwanegol i'r grant Llywodraeth Cymru a oedd yn talu am weithgareddau hyd at fis Mawrth 2021) a £900 mewn costau dylunio ar gyfer y daflen wybodaeth ar 'Safonau ac adnoddau dysgu'. Mae nodiadau gweledol wedi'u comisiynu ar gyfer y pedwar gweithdy a gynhaliwyd yn ein digwyddiad ar 10 Mawrth, am gost o £2,200 + VAT. Tanysgrifio i Rwydwaith Astudiaethau'r Sector Gwirfoddol yn costio £210.

4 LLYWODRAETHU

4.1 Gwnaeth Helplu Cymru gwrdd ym misoedd Ebrill, Hydref ac Ionawr a chaiff sgysiau diweddarau eu cynnal gyda'r cyd-gadeiryddion rhwng cyfarfodydd. Cytunwyd ar gylch gorchwyl diwygiedig ym mis Ebrill, sy'n

adlewyrchu'r gydberthynas newydd â Helpforce UK, ac ehangwyd yr aelodaeth.

